# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Dirprwy Bennaeth Fflyd a Pheirianneg |
| **Adran** | Fflyd |
| **Yn Atebol i** | Pennaeth Fflyd a Pheirianneg |

## Diben y Swydd yn Gyffredinol

Cynorthwyo Pennaeth y Fflyd a Pheirianneg mewn ystod eang o weithgareddau rheoli'r gwasanaethau Peirianneg a'r Fflyd ac o ran datblygu polisi a dirprwyo lle bo hynny'n briodol / pan fo angen.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Goruchwylio'r gwaith o reoli caffael cerbydau Ysgafn a cherbydau'r System Dyletswydd Hyblyg, cefnogi Pennaeth yr Adran wrth bennu cyllideb y dyfodol, cynllunio o fewn ffiniau presennol y gyllideb, nodi gwerthusiadau cerbydau, nodi mathau o gerbydau i'w hystyried, cysylltu ag adeiladwyr cerbydau am osod systemau diogelwch cerbydau a systemau ychwanegol, megis CCTV a chyfarpar y tu mewn i'r cerbyd.
2. Datblygu a chynnal polisïau rheoli asedau i sicrhau bod systemau ar waith er mwyn cynnal cronfa ddata i'r profion diogelwch, y cofnodion cynnal a chadw a'r profion a argymhellir gan wneuthurwyr ar gyfer asedau'r Gwasanaeth.
3. Cyfrifoldeb goruchwylio dros Oruchwylwyr Technegol y Fflyd a Pheirianneg, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau goruchwylio'r adran Fflyd a Pheirianneg bob amser. Mae hyn yn cynnwys rheoli absenoldeb, nodi anghenion hyfforddi staff, hyrwyddo hyfforddiant mewnol a rhannu gwybodaeth a chysylltu â'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.
4. Cefnogi, nodi a hyrwyddo safonau diogelwch y Gwasanaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod diogelwch effeithiol yn cael ei weithredu bob amser mewn perthynas â cherbydau, staff, contractwyr ac ymwelwyr.
5. Bod mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Diogelwch a sicrhau bod unrhyw welliannau neu newidiadau deddfwriaeth a nodwyd yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl. Sicrhau bod yr Adran Iechyd a Diogelwch yn cael gwybod am unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu adolygiad sy'n ofynnol mewn perthynas â cherbydau'r Fflyd a chytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â nhw.
6. Yn gyfrifol am oruchwylio systemau ar gyfer diogelwch staff, contractwyr ac ymwelwyr.
7. Cynnal cyfrifoldeb cyffredinol am arolygiadau Sicrwydd Ansawdd oddi ar y safle o ran cyflwr cerbydau ac asedau, ansawdd mewn cofnodi diffygion, safonau cyflwr asedau, cerbydau ac offer a gweithredu unrhyw welliannau. Goruchwylio arolygiadau Sicrwydd Ansawdd annibynnol, adrodd a briffio'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg a chyflwyno adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) ar ganfyddiadau.
8. Cynorthwyo'r Adran Iechyd a Diogelwch mewn perthynas ag ymchwilio i ddamweiniau neu ymchwilio i fethiant cydrannau a'u hadrodd i'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg, ynghyd ag unrhyw gasgliadau ac argymhellion.
9. Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb cyffredinol am lefelau cynhyrchiant yr Adran Fflyd, gan gynnwys ffigurau amser segur, asesiadau risg a dangosyddion perfformiad a gweithredu unrhyw welliannau a nodwyd. Sicrhau bod ymddygiad/perfformiad staff yn cael eu cynnal i'r lefel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth a'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg, a rheoli unrhyw fethiant i gyrraedd y lefel

ofynnol yn gywir trwy gysylltu â'r Goruchwylwyr Technegol Fflyd a Pheirianneg.

10. Sicrhau bod system effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynnyrch gwastraff yn unol â rheoliadau amgylcheddol. Parhau i ddatblygu system ar gyfer gwella hyn drwy leihau allbwn gwastraff.
11. Dylunio ac adeiladu system effeithiol ar gyfer monitro ynni/defnydd o adnoddau yn y gweithdy a mynd ati i chwilio am ddulliau o'u lleihau er mwyn bod yn gost effeithiol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, er enghraifft, Sero Net.
12. Yn dilyn gweithdrefnau i waredu cerbydau ac offer y Gwasanaeth nad ydynt yn cael eu defnyddio ddim mwy, mynd i ganolfannau trin awdurdodedig i weld a chofnodi proses ailgylchu'r cerbydau a pharhau i ddatblygu system i fodloni diogelwch, archwilio, dyletswydd gofal amgylcheddol a gofynion diogelwch. Cysylltu â'r adran Cyllid i sicrhau bod yr holl arian a dderbynnir yn cael ei gofnodi yn unol â rheolau sefydlog y Gwasanaeth Tân ac Achub.
13. Rheoli yswiriant ceir prydles a cheir a berchnogir. Goruchwylio gweinyddiaeth a sicrhau bod system atgyweirio effeithiol ar waith. Ymgysylltu â'r darparwr yswiriant a'u harolygwyr enwebedig. Cyfarwyddo a goruchwylio peirianwyr o ran hawliadau yswiriant ac agweddau ar atgyweirio.
14. Cynorthwyo'r Adran Iechyd a Diogelwch i gael mynediad at wybodaeth o deledu cylch cyfyng a'r data sydd wedi ei gofnodi ar ôl digwyddiad ac wrth samplu Sicrwydd Ansawdd. Rheoli ceisiadau am wybodaeth i gefnogi ymchwiliadau i ddigwyddiadau o fewn disgwyliadau'r Comisiynwyr Diogelu Data a Gwybodaeth.
15. Cynorthwyo a chynghori'r ddesg contractau llogi mewn perthynas â chyfathrebu ynghylch ceir prydles swyddogion, gosod offer rhybuddio clywedol a gweledol ynddynt a chynnal a chadw. Sicrhau bod system gadarn ar waith ar gyfer rheoli'r broses o ddychwelyd ac adnewyddu contractau llogi.
16. Yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad i'r staff Fflyd a Pheirianneg mewn perthynas â cherbydau gwasanaeth yn torri i lawr, lle bo angen.
17. Cysylltu â chontractwyr allanol a phenderfynu ar eu gallu i wneud gwaith o ran costeffeithiolrwydd/ansawdd gwaith.
18. Cyfrifoldeb cyffredinol dros gofnodion swydd a sicrhau bod system gyfrifiadurol rheoli'r fflyd yn 'fyw', yn cael ei chynnal a'i diweddaru. Cysylltu â staff yr Adran a'r adran TG i wella a datblygu system rheoli fflyd lle bo angen.
19. Cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod amserlen cynnal a chadw effeithiol ar waith lle mae amserlen ddigon cyson yn ei lle i sicrhau bod cerbydau ac offer yn cydymffurfio â rheoliadau statudol.
20. Sicrhau bod system effeithiol ar waith a goruchwylio'r system i gydymffurfio â rheolau treth cerbyd.
21. Monitro a goruchwylio diffygion dyddiol o'r Ystafell Reoli a dyrannu gwaith yn unol â lefelau gwaith, categori atgyweirio a faint o frys sydd, yn absenoldeb Goruchwylwyr y Gweithdy.
22. Cysylltu â'r adran Gyllid o ran ymholiadau am anfonebau, cadarnhad o'r nwyddau a'r gwasanaethau a dderbyniwyd/codi a chael sieciau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, llofnodi copïau archebion, awdurdodi materion stoc storfeydd i'r lefel llofnodwr y cytunwyd arni.
23. Rheoli recriwtio personél ar gyfer eu cyflogi o fewn yr Adran gan ddilyn y weithdrefn gywir fel y penderfynir gan yr Adran Adnoddau Dynol.
24. Cynorthwyo'r Pennaeth Fflyd a Pheirianneg ar brosiectau yn ôl yr angen.
25. Unrhyw ddyletswyddau eraill fel a gyfarwyddir gan y Pennaeth Fflyd a Pheirianneg gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau amrywiol, ymgymryd â thasgau untro, delio â galwadau ffôn a mynd i gyfarfodydd yn eu habsenoldeb ac ati.

